Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adolygiad thematig Estyn o godi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal

ISBN digidol 978 1 4734 6996 9
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2016
WG28054

**Teitl yr adroddiad:**

**Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal**

**Manylion yr adroddiad**

Comisiynwyd yr adroddiad gan yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr yn Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i nodi ymarfer effeithiol ar draws gwasanaethau addysg mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

**Cyd-destun**

Cafodd strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal mewn addysg – *Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru* – ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2016. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno strategaeth ar y cyd rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol i adlewyrchu'r berthynas fewnol rhwng cyd-destun cymdeithasol y plentyn a'i gyrhaeddiad addysgol, ond mae'n canolbwyntio ar y camau hynny a all gael effaith hirdymor ar uchelgeisiau, dyheadau a pherfformiad addysgol y grŵp hwn o ddysgwyr.

Mae'r strategaeth hon yn nodi camau a dargedwyd i gefnogi cyrhaeddiad addysgol yn well, a chyflwynir cynllun gweithredu i gyd-fynd â hi. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion yn enwedig, ynghyd ag ystod o bartneriaid eraill y mae eu gwaith yn effeithio ar fywydau a chanlyniadau plant sy'n derbyn gofal i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun yn flynyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Strategol Cenedlaethol sy'n cynnwys partneriaid allweddol i helpu i sbarduno'r gwaith hwn.

Yn 2016-17, mae'r strategaeth yn cael ei hategu gan bron i £4 miliwn sydd ar gael trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae consortia addysg rhanbarthol yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.

Rydym yn ddiolchgar i Estyn am ddatblygu'r adroddiad hwn, a fydd yn helpu i gefnogi ein dull o gefnogi'r dysgwyr hyn yng Nghymru.

**Argymhelliad 1**

Dylai ysgolion:

A1: Adeiladu ar arfer gorau yn unol â nodweddion ysgolion effeithiol a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae *Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru* yn cydnabod bod angen cryfhau'r cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod penderfyniadau'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. I gefnogi hyn, rydym eisoes wedi nodi bod angen sicrhau bod unrhyw arfer rhagorol yn cael ei nodi, ei hyrwyddo a'i rannu.

Mae gan y consortia addysg rhanbarthol gyfraniad allweddol i'w wneud at hwyluso'r gwaith o rannu arfer da, gwybodaeth a sgiliau a fydd yn nodi cryfderau lleol ac yn gwella capasiti, ac mae'r strategaeth genedlaethol yn nodi camau gweithredu a fydd yn hyrwyddo'r nod hwn yn gadarnhaol. Trwy roi'r strategaeth hon ar waith, byddwn yn datblygu'r maes gwaith hwn ymhellach ac yn mynd ati i:

- archwilio gyda rhanddeiliaid ddatblygiad *cymuned o arfer* i hwyluso rhannu arfer da ar draws gwasanaethau addysg ac yn enwedig i annog cymorth ysgol-i-ysgol

- mewn cydweithrediad â'r consortia addysg rhanbarthol ac awdurdodau lleol, byddwn yn sicrhau bod yr aelod staff dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mhob ysgol yn ymwybodol o'r arfer gorau yn adroddiad Estyn, a meysydd arfer da eraill a nodwyd

- wrth ddatblygu canllawiau arfer da ar gyfer yr aelod staff dynodedig, byddwn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar rannu arfer da i sicrhau bod arfer rhagorol yn rhan annatod o'r ysgol.

**Argymhelliad 2**

Dylai awdurdodau lleol:

A2: Adeiladu ar arfer gorau yn unol â nodweddion awdurdodau lleol effeithiol a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS), i ofyn sut y byddant yn sicrhau y bydd yr arfer da a nodir yn rhan allweddol o'u trefniadau rhianta corfforaethol presennol.

Cafodd y Grŵp Strategol Cenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn addysg – gyda chynrychiolaeth o awdurdodau lleol – ei sefydlu i helpu i sicrhau ymarfer cyson o ran cefnogi plant sy'n derbyn gofal sy'n cynnwys cryfhau trefniadau a phartneriaethau rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau cydweithredu effeithiol.

Bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhannu gyda'r grŵp a'u trafod fel rhan o raglen waith barhaus y grŵp.

**Argymhelliad 3**

Dylai'r consortia rhanbarthol:

A3: Wella'r modd y maent yn cynllunio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i wneud yn siŵr bod ysgolion yn glir ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r grant a bod eu cynlluniau'n rhoi digon o ystyriaeth i anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi cryfhau trefniadau i gynnal ffocws strategol cryf ar blant sy'n derbyn gofal mewn addysg. Mae arbenigedd yn cael ei ddatblygu ym mhob rhanbarth i sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion/Plant sy'n Derbyn Gofal yn darparu rhaglen waith strategol, gytunedig sy'n seiliedig ar flaenoriaethau lleol a rhanbarthol.

Mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi cynnwys manylion mwy cadarn yn eu cynlluniau ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17, ac wedi amlinellu gwariant arfaethedig mewn ffordd fwy manwl. Mae pob un o'r cynlluniau gwariant yn cynnwys darpariaeth cyllid (bwrsari) ar gyfer ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae ysgolion wedi cael gwybod sut y bydd y grant yn cael ei weinyddu ac maent yn ymwybodol o'r broses o gael gafael ar gyllid i'w ddefnyddio i ddiwallu anghenion disgyblion.

I helpu i wella'r cyfathrebu mewn perthynas â'r defnydd o'r Grant

Amddifadedd Disgyblion/Plant sy'n Derbyn Gofal, mae pob consortiwm addysg rhanbarthol wedi trefnu 'diwrnodau gwybodaeth' ar gyfer penaethiaid, athrawon a staff awdurdodau lleol. Cafodd cynrychiolwyr gyfle i awgrymu'r math o wasanaethau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yr hoffent eu gweld yn cael eu comisiynu trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion/Plant sy'n Derbyn Gofal a'u darparu yn eu hardal. Mae'r adborth o'r digwyddiadau hyn wedi llywio'r rhaglen waith y bydd y consortia addysg rhanbarthol yn ei datblygu yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Argymhellion 4 a 5**

Dylai Llywodraeth Cymru:

A4: Ystyried ehangu mesurau perfformiad i gynnwys cynnydd o gymharu â man
cychwyn y plant ac yn ymestyn y tu hwnt i oedran ysgol statudol.

Ymateb:

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei strategaeth *Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru* y dylai ysgolion osod targedau ymarferol, ond heriol, mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc a chydnabod efallai y bydd angen cymorth ychwanegol oherwydd yr effaith y bydd profiadau andwyol mewn plentyndod wedi ei chael ar eu gallu i lwyddo mewn addysg. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei ffurfioli yn y Cynllun Addysg Personol (CAP). Rhaid i gynlluniau addysg fonitro a chofnodi datblygiad personol y plentyn gan ddefnyddio targedau academaidd a 'chymdeithasol'.

Mae hyn yn gysylltiedig â'n cynlluniau i wella gwaith olrhain i fonitro cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal a sicrhau cynlluniau addysg a chynlluniau datblygu unigol ystyrlon. Er bod strategaeth Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad a chyflawniad plant o oedran ysgol gorfodol, mae'n trafod hefyd faterion yn ymwneud â'r pontio i addysg bellach ac uwch neu gyflogaeth ac rydym yn datblygu trefniadau i gryfhau, monitro a gwella'r pontio hwn.

Mae adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, yn gosod y seiliau ar gyfer cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain a fydd yn golygu safonau uwch i bawb. Mae ysgolion arloesi yn rhan annatod o'r gwaith o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd. Ein huchelgais yw y bydd y fframwaith newydd ar gael i ysgolion a safleoedd o fis Medi 2018 ymlaen.

A5: Gwneud yn siŵr bod cynlluniau gwariant y consortia rhanbarthol yn

briodol i
angen lleol ac wedi eu seilio ar ddadansoddiad cadarn o anghenion plant sy’n derbyn gofal.

Ymateb:

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi’r consortia addysg rhanbarthol i annog gwaith ar draws consortia, gan sicrhau bod cynlluniau gwariant yn gadarn a bod y Grant Amddifadedd Disgyblion/Plant sy’n Derbyn Gofal yn effeithiol o ran diwallu anghenion plant sy’n derbyn gofal mewn addysg.

Rydym wedi sicrhau bod trefniadau llywodraethu o ran gweinyddu’r Grant Amddifadedd Disgyblion/Plant sy’n Derbyn Gofal yn gadarn a bod cynlluniau gwariant ar gyfer 2016-17 wedi’u craffu a’u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â chonsortia addysg rhanbarthol yn rheolaidd i wirio cynnydd ac i ddarparu cymorth i oresgyn unrhyw broblemau neu rwystrau. I helpu’r consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau sy’n esbonio sut mae’r Grant Amddifadedd Disgyblion/Plant sy’n Derbyn Gofal yn cael ei weinyddu a sut mae’n rhaid i’r meini prawf cymhwysedd weithredu. Mae hyn wedi’i gyfathrebu’n eang trwy wahanol gyfryngau.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hopsiynau ar gyfer adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd blwyddyn gyntaf (2015-16) y trefniadau ariannu diwygiedig. Un o bwyntiau ffocws allweddol yr adolygiad fydd sut y gellir cryfhau’r broses adrodd bresennol i olrhain a monitro gwariant yn well.

**Manylion cyhoeddi**

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan Estyn ar 5 Gorffennaf 2016.